Annwyl Gwsmer

**Gollwng a Chasglu yn Level Road**
**SIOP GYFLEUSTRA JP&H CYF, Level Road, Penarlâg, Glannau Dyfrdwy, CH5 3JR**

Yn anffodus, bu oedi cyn agor cangen brawf fformat ysgafnach newydd Swyddfa'r Post yn y lleoliad uchod ar 25 Hydref 2022 oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Mae'n bleser gennyf nodi bod yr agoriad newydd wedi'i amserlennu ar gyfer dydd Mercher 9 Tachwedd 2022 am 13:00. Bydd posteri yn cael eu harddangos yn y gangen i roi gwybod i gwsmeriaid.

Yr eiddoch yn gywir

*Natalie Liff*

**Natalie Liff**
**Rheolydd Cynigion**
**Cynigion Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn postoffice.co.uk/privacy

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk.**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.